Llwybrau Teithio Llesol Bangor

A487, Ffordd Penrhos, a Ffordd Penchwintan (Tudalen 1 o 3)

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

CYNGOR GWYNEDD

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

Eich barn…
Mae'r map hwn yn dangos ein syniadau gwella cynnar y gallem eu gwneud i'r A487 a Ffordd Penrhos i'w gwneud yn haws i bobl gerdded, beicio a defnyddio olwynion.
Ein nod yw darparu dull diogel o deithio y gall pobl ei ddefnyddio i gysylltu ag ysgolion, canolfannau trafnidiaeth, yr Ysbyty, eu cymdogion a gweddill Bangor.
Awgrymiadau yn unig yw'r rhain ar hyn o bryd. Ystyriwch fynd i www.gwynedd.llyw.cymru/FforddPenrhos i gwblhau arolwg byr i fynegi eich barn.
Byddem yn wir gwerthfawrogi eich sylwadau a sylwadau gan eraill! Cyfrannwch a rhannwch.
Mae copïau papur o'r cynlluniau hyn ar gael trwy Gyngor Gwynedd gan ddefnyddio'r ddolen uchod.



Tudalen 1

Llwybr cyd-ddefnyddio… Sut olwg fydd ar hwn?
Mae'r lluniad isod yn dangos yn nodweddiadol ba olwg allai fod ar gynllun y llwybr cyd-ddefnyddio arfaethedig wrth i ni deithio ar hyd Ffordd Penrhos. Ein bwriad yw gwneud y llwybr hwn yn 3m o led ar gyfer rhan fwyaf o hyd Ffordd Penrhos gyda rhywfaint o ehangu a chulhau mewn mannau cul naturiol.
Ffordd gulach - Er mwyn gwneud lle ar gyfer y llwybr cyd-ddefnyddio arfaethedig, byddai angen culhau'r ffordd i 6.0m o led. Er y gallai llwybr culach swnio'n negyddol, bydd y 6.0m arfaethedig yn helpu i greu llwybr mwy diogel i'r holl ddefnyddwyr, gan leihau gwrthdrawiadau posibl.



Tudalen 2